


## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Llywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i nodi fel un o 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal, mae rhwymedigaeth statudol arnom i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu ystyried sut mae unrhyw un o bolisiâu Llywodraeth Cymru yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth *Cymraeg 2050*:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes potensial i'ch polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg, ac felly ar y Gymraeg ei hun.

1. **Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gyflawnwyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: [Safonau.Standards@llyw.cymru](mailto:Safonau.Standards@llyw.cymru)):**

Amherthnasol

2. **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?***

Mae perthynas glir rhwng un o'n cynigion mwyaf sylweddol (sefydlu system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru) a thrydydd thema rhaglen waith Cymraeg 2050 (creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun).

3. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (yn effeithiau positif a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn eich ateb, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- ♦ **Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg<sup>1</sup> (yn effeithiau positif a/neu andwyol)?**
- ♦ **Sut fydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (yn effeithiau positif a/neu andwyol)?**

Bydd effaith y cynigion ar y Gymraeg yn anuniongyrchol, ond byddant yn fuddiol yn hytrach nag andwyol. Rydym yn cynnig uno tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru i fod yn un tribiwnlys gyda darpariaeth gyffredin ar gyfer penodi a disgyblu aelodau a chreu rheolau gweithdrefnol, ochr yn ochr â diwygio'r uned yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am gefnogi rhai o'r tribiwnlysoedd ac ymestyn rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

---

<sup>1</sup> Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol ar wasgar mewn lleoliadau trefol, a chymunedau rhithwir ledled ardaloedd daearyddol.

Dylai'r symleiddio hyn hwyluso, i'r graddau angenrheidiol, y ddarpariaeth o wasanaethau tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Mae'n bosib y bydd ein cynigion cychwynnol ynghylch paneli gwaharddiadau o ysgolion ac apeliadau derbyn i ysgolion, yn ogystal â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, yn cael ychydig o effaith anuniongyrchol ar fynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig, mae'n benodol bwysig bod paneli apeliadau gwaharddiadau o ysgolion a derbyn i ysgolion yn gallu cynnig canlyniadau teg a chyson.

- ♦ **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau<sup>2</sup> sydd ar gael yn Gymraeg (yn effeithiau positif a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuentid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)**

Ar hyn o bryd, mae pob un heblaw am ddau o dribiwnlysoedd Cymru yn ôl diffiniad Deddf Cymru 2017 a Thribiwnlys Prisio Cymru yn destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016.<sup>3</sup> Mae gwefan PDC yn nodi bod y tribiwnlys "wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn ag ysbryd" y Rheoliadau.<sup>4</sup>

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn darparu safonau'r Gymraeg o fewn y Rheolau Tribiwnlys perthnasol.<sup>5</sup>

Mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r Cod Ymarfer cysylltiedig yn nodi "byddai hysbysiad cydymffurfio cyngor ond yn berthnasol i weithgareddau ysgol o fewn ardal y cyngor, i'r graddau hynny lle mae'r cyngor, ac nid y corff llywodraethu, yn berthnasol i'r gwasanaeth dan sylw".<sup>6</sup> Felly, ein barn ni yw

---

<sup>2</sup> Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau gaiff eu cynnig i siaradwyr Cymraeg, ac i weld os oes cynnydd o ran defnydd o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

<sup>3</sup> Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru yn gyrrff a restrir yn atodlen 6 Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, ac felly mae'r safonau'n berthnasol iddynt.

<sup>4</sup> Panel Dyfarnu Cymru, y Gymraeg <https://paneldyfarnu.llyw.cymru/y-gymraeg> (ymwelwyd ddiwethaf ar 19 Tachwedd 2020)

<sup>5</sup> Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg SI 2015 Rhif 1028 (W 76) a 6.

<sup>6</sup> Comisiynydd y Gymraeg, *Cod Ymarfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) Rheoliadau 2015* (Ionawr 2020), paragraff 3.49 <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/English/Publications%20List/DG%20S%20Cod%20Ymarfer%20Rheoliadau%20Rhif%201.pdf> (ymwelwyd ddiwethaf ar 23 Tachwedd 2020).

bod rheoliadau 2015 yn berthnasol i baneli apeliadau gwaharddiadau o ysgolion, a phaneli derbyn i ysgolion sy'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol (ac nid corff llywodraethu'r ysgol dan sylw).<sup>7</sup>

O ystyried bod tribiwnlysoedd o fewn ein cylch gwaith eisoes yn cydymffurfio â gofynion i hwyluso defnydd o'r Gymraeg, nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion cychwynnol yn achosi newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd uno tribiwnlysoedd presennol yn un tribiwnlys unedig yn golygu bod un gyfres o safonau'n berthnasol i bob siambr yn y tribiwnlys unedig hwnnw.

Mae Cwestiynau Ymgynghoriad 21 a 22 o'n papur ymgynghori yn cynnig yn gychwynnol y dylai'r holl reolau tribiwnlys gynnwys amcan cyffredinol. Ein Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd arfaethedig fydd yn gyfrifol am ddrafftio'r amcan hwnnw, ond sylwer mai un posibilrwydd yw y gellid gofyn yn uniongyrchol i dribiwnlysoedd "drin ieithoedd y tribiwnlysoedd yn gyfartal".

- ♦ **Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu cael mynediad iddynt a'u defnyddio mor rhwydd ag y gallent yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg?**

Fel y nodwyd uchod, mae'r tribiwnlysoedd eisoes yn gorfod cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol. Mae trafodaethau gydag Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi cadarnhau mai'r prif ffordd y caiff gwybodaeth am wasanaethau ei rhannu gyda defnyddwyr tribiwnlysoedd yw drwy wefannau unigol y tribiwnlysoedd, sydd ar gael yn Gymraeg. Rydym yn rhagweld mai dyma fyddai'r achos ar gyfer y tribiwnlys unedig sy'n rhan o'r cynnig yn y papur ymgynghori.

- ♦ **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Rydym yn ceisio tystiolaeth gan ymgynghoreion ynghylch effaith ein cynigion ar ddarpariaeth gwasanaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn gofyn i'r wybodaeth honno am ein hymgyngoriad gael ei chynnwys ar wefannau'r tribiwnlysoedd.

- ♦ **Sut byddwch yn gwybod os yw eich polisi yn llwyddiant?**

---

<sup>7</sup> Mae Adran 94(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn nodi bod awdurdodau derbyn yn gyfrifol am weinyddu paneli apeliadau derbyn i ysgolion. Mae Rheoliad 1 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apeliadau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) SI 2003 Rhif 3227 (W 308) yn gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am drefnu paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion.

Yn y tymor byr, bydd llwyddiant ein prosiect yn cael ei fesur pan fydd argymhellion ein hadroddiad yn cael eu gweithredu. Yn y tymor hir, bydd yn cael ei arfarnu gan brofiad y rheiny sy'n defnyddio'r system dribiwnlysoedd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.